***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Paragraff 1 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

# ATODLEN 4

## CONTRACTAU SAFONOL RHAGARWEINIOL

### *Y cyfnod rhagarweiniol*

1 (1) Y cyfnod rhagarweiniol, mewn perthynas â chontract meddiannaeth sy'n gontract safonol cyfnodol oherwydd bod yr eithriad cyntaf yn adran 11 neu 12 yn gymwys ac oherwydd ei fod o fewn paragraff 3 o Atodlen 3—

(a) yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â dyddiad cyflwyno'r contract, neu

(b) os oes estyniad o dan baragraff 3, yw'r cyfnod o 18 mis sy'n dechrau â dyddiad cyflwyno'r contract.

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys yn lle is-baragraff (1) os, ar ddiwedd yr hyn fyddai'r cyfnod rhagarweiniol o dan is-baragraff (1)—

(a) oes hawliad meddiant a wnaed gan y landlord mewn perthynas â'r annedd heb gael ei gwblhau, neu

(b) yw'r landlord wedi rhoi hysbysiad adennill meddiant neu hysbysiad o dan adran 173 (hysbysiad y landlord i derfynu'r contract) i ddeiliad y contract, ac nad yw'r cyfnod y caiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn iddo ddod i ben wedi dod i ben.

(3) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys, y cyfnod rhagarweiniol yw'r cyfnod sy'n dechrau â dyddiad cyflwyno'r contract ac sy'n dod i ben—

(a) pan geir digwyddiad perthnasol, neu

(b) os na cheir digwyddiad perthnasol, yn union ar ôl i'r contract ddod i ben.

(4) Mewn achos sydd o fewn is-baragraff (2)(a) y digwyddiad perthnasol yw hawliad meddiant yn cael ei ddyfarnu o blaid deiliad y contract.

(5) Mewn achos sydd o fewn is-baragraff (2)(b) mae pob un o'r canlynol yn ddigwyddiad perthnasol—

(a) tynnu'r hysbysiad yn ôl;

(b) y cyfnod yn dod i ben heb fod hawliad meddiant wedi ei wneud;

(c) hawliad meddiant a wnaed gan ddibynnu ar yr hysbysiad yn cael ei ddyfarnu o blaid deiliad y contract.

(6) Os daw landlord preifat yn landlord o dan y contract cyn yr adeg y byddai'r cyfnod rhagarweiniol yn dod i ben oni bai am yr is-baragraff hwn, daw'r cyfnod rhagarweiniol i ben.

(7) Dyddiad cyflwyno contract meddiannaeth (yn ddarostyngedig i baragraff 2)—

(a) yw dyddiad meddiannu'r contract, neu

(b) os daeth y contract yn gontract safonol cyfnodol oherwydd bod yr eithriad cyntaf yn adran 12 yn gymwys ac oherwydd iddo ddod o fewn paragraff 3 o Atodlen 3 pan ddaeth landlord cymunedol yn landlord o dan y contract, yw'r diwrnod y daeth y landlord cymunedol yn landlord.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 4 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** Atod. 4 para. 1 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Paragraff 1 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5